


Briff Ymchwil

# Comisiwn y Cynulliad

**Awdur:** Alys Thomas

**Dyddiad:** Chwefror 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Chwefror 2018**
Rhif Papur: **18-011**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6305**
: **Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Comisiwn y Cynulliad

Mae **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** ("Deddf 2006"), fel y'i diwygiwyd,  yn creu Comisiwn y Cynulliad, sef corff statudol sy'n darparu gwasanaethau i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad, a hwnnw'n gorff sy'n gyfreithiol ar wahân i'r weithrediaeth (Llywodraeth Cymru).

Mae **adran 27** o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer sefydlu, pennu aelodaeth a phennu swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn bod y Comisiwn yn darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei ddiben (neu i drefnu bod y gofynion hynny yn cael eu bodloni).

Mae'r **Comisiwn** yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall. Yn ystod y Pumed Cynulliad, mae'r Comisiwn yn cynnwys yr Aelodau Cynulliad a ganlyn, ac mae cyfrifoldebau penodol gan bob un:

- Elin Jones AC (Cadeirydd);
- Suzy Davies AC (y Ceidwadwyr);
- Caroline Jones AC (UKIP);
- Adam Price AC (Plaid Cymru); a
- Joyce Watson AC (Llafur).

Caiff staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cyflogi gan y Comisiwn.

## Penodi Aelodau'r Comisiwn

Yn dilyn etholiad Cynulliad, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol drafod cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes sy'n nodi enwau'r pedwar Aelod i gael eu penodi yn aelodau'r Comisiwn yn unol â'r Ddeddf.

Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Llywydd) fod yn aelodau o grwpiau gwleidyddol gwahanol.

Os bydd pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol, mater i arweinydd pob un o'r pedwar grŵp gwleidyddol mwyaf fydd cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes enw'r enwebai o'i grŵp gwleidyddol.

Os bydd llai na phedwar grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad, rhaid i arweinydd pob un o'r grwpiau gwleidyddol gyfleu i'r Pwyllgor Busnes enw ei enwebai a mater i'r Pwyllgor Busnes fydd penderfynu ar enw unrhyw Aelodau ychwanegol i'w henwebu.

Os bydd dau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a chanddynt yr un nifer o aelodau, y Llywydd fydd yn penderfynu pa un o'r grwpiau gwleidyddol hynny fydd yn cael ei gyfrif fel y mwyaf, a hynny drwy roi sylw i lefel y gefnogaeth etholiadol i bob un o'r grwpiau gwleidyddol o dan sylw.

## Ymddiswyddo neu Ddiswyddo

Bydd aelod o'r Comisiwn yn ymddiswyddo o'r Comisiwn drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc. Ni chaniateir i'r Llywydd ymddiswyddo o'r Comisiwn.

Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig y dylai Aelod penodol (heblaw'r Llywydd) gael ei ddiswyddo o'r Comisiwn. Os cytunir ar unrhyw gynnig o'r fath yn y **Cyfarfod Llawn**, caiff yr Aelod hwnnw ei ddiswyddo o'r Comisiwn ar unwaith.

## Cyllid ac Adroddiad Blynyddol

Yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, mae'n rhaid i Gomisiwn y Cynulliad, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi a **gosod adroddiad gerbron y Cynulliad** wrth iddo arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Mae'n ofynnol bod Comisiwn y Cynulliad yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedyn yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad.

## Dyletswyddau a phwerau eraill

Mae paragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad roi sylw i egwyddorion datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Mae paragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 hefyd yn rhoi pŵer i Gomisiwn y Cynulliad hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, a'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau'r Cynulliad.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad, cysylltwch ag Alys Thomas (**alys.thomas@cynulliad.cymru**).